# Sut y caiff Aelodau Cynulliad eu hethol.

Cynhelir etholiad pob pedair blynedd ac  mae gan bob etholwr ddwy bleidlais. O'r 60 Aelod Cynulliad a gaiff eu hethol, mae 40 yn cynrychioli etholaethau ac fe'u hetholir drwy system 'y cyntaf i'r felin', sef yr un broses o ethol  AS i Dy'r Cyffredin. Mae 20 Aelod arall yn cynrychioli rhanbarthau.

Y 5 rhanbarth yw:

**Gogledd Cymru**
**Canolbarth a Gorllewin Cymru**
**Gorllewin De Cymru**
**Canol De Cymru**
**Dwyrain De Cymru**

Caiff yr Aelodau Rhanbarthol eu hethol drwy fath o gynrychiolaeth gyfrannol a chyfeirir  ato fel System Aelodau Ychwanegol. Mae'r system hon yn anelu at sicrhau bod cyfanswm nifer y seddi sydd gan bob plaid yn adlewyrchu  cyfran y bleidlais a dderbyniwyd gan bob plaid.

Mae pob rhanbarth yn cynnwys rhwng 7 a 9 etholaeth. Etholir 4 Aelod Cynulliad Rhanbarthol ar gyfer pob un o'r  5 rhanbarth.

## Y System Aelodau Ychwanegol.

Etholir y 4 Aelod Rhanbarthol drwy:

– Cyfri nifer y pleidleisiau a roddwyd ar yr ail bapur pleidleisio ar gyfer pob plaid mewn rhanbarth.

– Rhannu nifer y pleidleisiau ar gyfer pob plaid gyda nifer y seddi etholaethol a enillwyd gan y pleidiau hynny gan ychwanegu 1 ar gyfer aelod ychwanegol cyntaf.

– Gwneud yr un peth ar gyfer yr ail, trydydd a'r pedwerydd Aelod Ychwanegol;  ym mhob achos rhannu pleidleisiau bob plaid gyda nifer y seddi etholaethol gan ychwanegu 1, yn ogystal ag unrhyw  seddi Aelodau Ychwanegol sydd wedi eu clustnodi.

## Aelodau Rhanbarthol Ychwanegol—Ceisiwch gwblhau y tabl.

| | **Parti A** | **Parti B** | **Parti C** | **Parti CH** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Pleidleisiau mewn Rhanbarth ar yr 2 Bapur Pleidleisio | 79,564 | 58,080 | 34,944 | 30,911 |
| Seddi Etholaeth Y.C.I.F. enillwyd ( + 1 ) | 6 | 1 | 0 | 1 |
| Aelod Ychwanegol Sedd 1 | | | | |
| Aelod Ychwanegol Sedd 2 | | | | |
| Aelod Ychwanegol Sedd 3 | | | | |
| Aelod Ychwanegol Sedd 4 | | | | |
| Aelodau Ychwanegol Rhanbarthol | | | | |
| Cyfanswm AC Etholaethol + Rhanbarthol | | | | |

# Aelodau Rhanbarthol Ychwanegol—Atebion.

| | Parti A | Parti B | Parti C | Parti CH |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Pleidleisiau mewn Rhanbarth ar yr 2 Bapur Pleidleisio | 79,564 | 58,080 | 34,944 | 30,911 |
| Seddi Etholaeth Y.C.I.F. enillwyd ( + 1 ) | 6 | 1 | 0 | 1 |
| Aelod Ychwanegol Sedd 1 | C ÷ 7<br>= 11,366 | C ÷ 2<br>= 29,040 | C ÷ 1<br>= 34,944<br>ETHOLWYD | C÷ 2<br>= 15,455 |
| Aelod Ychwanegol Sedd 2 | C ÷ 7<br>= 11,366 | C ÷ 2<br>= 29,040<br>ETHOLWYD | C ÷ 2<br>= 17,472 | C ÷ 2<br>= 15,455 |
| Aelod Ychwanegol Sedd 3 | C ÷ 7<br>= 11,366 | C ÷ 3<br>= 19,360<br>ETHOLWYD | C ÷ 2<br>= 17,472 | C ÷ 2<br>= 15,455 |
| Aelod Ychwanegol Sedd 4 | C ÷ 7<br>= 11,366 | C ÷ 4<br>= 14,250 | C ÷ 2<br>= 17,472<br>ETHOLWYD | C ÷ 2<br>= 15,455 |
| Aelodau Ychwanegol Rhanbarthol | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Cyfanswm AC Etholaethol + Rhanbarthol | 6 | 3 | 2 | 1 |